# Datblygiad proffesiynol effeithiol athrawon: Set ymarferol o awgrymiadau

**Gall datblygiad proffesiynol athrawon wneud gwahaniaeth sylweddol i ddysgu myfyrwyr – os caiff ei gynllunio a'i gyflwyno'n effeithiol. Mae'r cwestiynau hyn yn amlygu tystiolaeth allweddol ynghylch y ffordd orau o wneud hyn. Dylid darllen y ddogfen ar y cyd â phapur briffio WCPP ar ddatblygiad proffesiynol effeithiol athrawon (Fletcher-Wood, 2022).**

| MAES FFOCWS | EGWYDDORION | BETH ALLWCH CHI EI WNEUD |
|---|---|---|
| **Dewis ffocws ar gyfer dysgu athrawon** | Mae datblygiad proffesiynol yn helpu athrawon pan fydd wedi'i seilio ar wyddoniaeth dysgu a'r dystiolaeth ynghylch camau addysgu effeithiol. | Adolygu **Gwyddoniaeth Dysgu** a'r Egwyddorion Addysgeg a nodir yn y **Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol**.<br>Nodi sut y bydd eich rhaglen datblygiad proffesiynol yn helpu athrawon i ddeall a gweithredu arnynt. |
| **Nodi ffordd o helpu athrawon i ennill gwybodaeth a sgiliau newydd** | **Peidiwch â phoeni am nodweddion arwynebol** rhaglenni datblygiad proffesiynol, fel pa mor hir ydynt, neu p'un a oes ganddynt fewnbwn arbenigol – gall rhaglen hir fod yn dda neu'n ddrwg. **Canolbwyntiwch ar y mecanweithiau sy'n helpu pobl i newid eu hymddygiad.** Er enghraifft, dangoswyd bod pob un o'r mecanweithiau hyn yn helpu pobl newid eu hymddygiad:<br>• Gweld modelau<br>• Ymarfer<br>• Gwneud cynlluniau gweithredu manwl | Dewis ychydig o fecanweithiau newid ymddygiad i'w defnyddio yn eich rhaglen datblygiad proffesiynol o'r **rhestr** hon (nid yw pob un ohonynt yn berthnasol). |
| **Sicrhau bod datblygiad proffesiynol yn mynd yn ei flaen yn ôl y bwriad** | **Gall gweithredu gwael danseilio rhaglenni datblygiad proffesiynol addawol.**<br>Yn benodol, mae ar athrawon angen:<br>• Amser i fynychu datblygiad proffesiynol, myfyrio, a gweithredu ar eu dysgu<br>• Anogaeth a chefnogaeth gan arweinwyr | Adolygu'ch cynllun datblygu proffesiynol, gan chwilio am rwystrau posibl.<br>Gofyn i athrawon adolygu'r cynllun, gan chwilio am rwystrau posibl.<br>Nodi a diogelu amser i athrawon ddysgu, myfyrio a gweithredu ar eu dysgu.<br>Dangos yn benodol gefnogaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon. |




## Rhagor o wybodaeth

I gael papur briffio polisi cysylltiedig sy'n adolygu'r dystiolaeth ar ddatblygiad proffesiynol athrawon, gweler: Fletcher-Wood, H. (2022). **Datblygiad proffesiynol effeithiol athrawon.** Caerdydd: Canolfan Polisïau Cyhoeddus Cymru.

## Manylion yr awdur

Mae **Harry Fletcher-Wood** yn gyn-athro hanes ac yn addysgwr athrawon ac ymchwilydd addysgol cyfredol. Mae ei ymchwil yn canolbwyntio ar ddatblygiad athrawon a newid ymddygiad. Mae Harry yn gweithio yn Ambition Institute, lle mae'n arwain eu rhaglen Cymrodorion Athrawon sy'n Addysgwyr. Mae hefyd yn astudio ar gyfer PhD mewn Polisi Cyhoeddus yng Ngholeg y Brenin, Llundain.

## Gwybodaeth am Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi tystiolaeth a chyngor annibynnol o ansawdd uchel i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.

Mae'r Ganolfan, sy'n cael ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, yn rhan o Brifysgol Caerdydd ac yn aelod o Rwydwaith yr Hyn sy'n Gweithio ('What Works Network') y Deyrnas Unedig.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Manon Roberts**

+44 (0)29 2087 5345

manon.roberts@wcpp.org.uk

**Wales Centre for Public Policy**

Cardiff University, Sbarc/Spark, Maindy Road, Cardiff CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk

029 2087 5345

info@wcpp.org.uk

@WCfPP

Cardiff University Prifysgol Caerdydd

UKRI Economic and Social Research Council

Llywodraeth Cymru Welsh Government